

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid
Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change
and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HID/CC/MA/5032/24

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd

SeneddEconomi@senedd.cymru

29 Hydref 2024

Annwyl Paul

Yn dilyn fy llythyr ar 30 Ebrill 2024. Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi cydsynio i'r Gweinidog Gwladol osod Rheoliadau Symud Nwyddau (Gogledd Iwerddon i Brydain Fawr) (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Darpariaeth Ddarfodol a Diwygiadau Amrywiol) 2024 mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma: <https://senedd.cymru/media/kutflqqz/ws-ld16766-w.pdf>

Rhodddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn er mwyn gweithredu'r cerrig milltir ar gyfer Model Gweithredu Targed y Ffin (BTOM). Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac fe'i gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 28 Hydref 2024 gyda dyddiad cychwyn a fydd yn amodol ar gymeradwyo'r OS drwy benderfyniad gan ddau Dŷ Senedd y DU.

Roedd yr offeryn hwn i fod i osod ar 22 Mai; fodd bynnag, cyhoeddwyd yr Etholiad Cyffredinol y diwrnod hwnnw a arweiniodd at saib i'r amserlen.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.